Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol

Ionawr 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 1

Prif ganfyddiadau 3

Argymhellion 5

Arfarniad o berfformiad mewn ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol 6

Gwaith AALlau wrth wella adeiladau ysgol 13

Canfyddiadau ymchwil 16

Atodiad 1 Llyfryddiaeth

Atodiad 2 Cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

Atodiad 3 Cyflawniad mewn ysgol gynradd

Cyflwyniad

1 Diben y cyngor hwn yw rhoi arfarniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol.

2 Mae sail y dystiolaeth yn cynnwys:

- ymchwilio i lenyddiaeth sydd ar gael ar berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol;
- ymweld ag wyth awdurdod addysg lleol (AALlau);
- ymweld ag wyth ysgol; a
- dadansoddiadau data[1] o 74 o ysgolion.

3 Mae'r fethodoleg hon yn debyg i ymchwil arall a gynhaliwyd ar arfarnu perfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol.

4 At ddibenion yr adroddiad hwn, caiff perfformiad ysgolion ei fesur yn ôl data perfformiad a graddau arolygu Estyn ar:

- gyrhaeddiad[2] a chyflawniad[3] disgyblion dros y cyfnod tair blynedd 2003-2005;
- ymddygiad fel a nodir gan lefel y gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol a graddau Estyn lle bo'n briodol;
- presenoldeb;
- ansawdd yr addysgu;
- ansawdd ac ystod y cwricwlwm; ac
- arweinyddiaeth a rheolaeth.

[1] 47 o ysgolion cynradd a 27 o ysgolion uwchradd. 12 o ysgolion newydd a 62 o ysgolion a adnewyddwyd.

[2] Mae hyn yn golygu pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud, fel a fesurir mewn asesiadau cenedlaethol ac yn y cymwysterau neu'r credydau y maent yn eu hennill.

[3] Mae arolygwyr yn barnu cyflawniad yn ôl pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud mewn perthynas â'u gallu a'r cynnydd a wnânt.

5 Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gwneud pob adeilad ysgol yn addas at eu diben. Mae 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006) yn datgan y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- "yn hyrwyddo cynaliadwyedd a diogelwch wrth ddylunio ysgolion newydd ac adnewyddu sylweddol trwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried safonau BREEAM[4] ac i osod taenellwyr tân wrth ddefnyddio grant Llywodraeth Cynulliad Cymru;

- yn hyrwyddo caffael effeithiol a rheolaeth prosiect gref wrth ddarparu adeiladau ysgol trwy weithredu ar y cyd rhwng awdurdodau lleol wedi'i gefnogi gan Werth Cymru[5];

- yn darparu cyllid cyfartalog o £150 miliwn bob blwyddyn o 2006-2007 i 2009-2010 ar gyfer adeiladau ysgol;

- yn parhau i adolygu'r cynnydd a wna awdurdodau lleol; ymgynghori ag awdurdodau ar yr angen i fuddsoddi y tu hwnt i 2010 a gosod dyddiadau targed ar gyfer awdurdodau lleol unigol i gyrraedd y targed addasrwydd;

- yn ystyried datblygu cyswllt rhwng dyrannu cyllid ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion a chynllunio strategol effeithiol gan awdurdodau lleol, yn seiliedig ar eu cynlluniau rheoli asedau a'u hasesiad o'r galw am leoedd mewn ysgolion; ac

- yn hyrwyddo ysgolion fel ffocws ar gyfer y gymuned leol, gan roi cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol (addysgol ac arall) ar gyfer disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol, gan gynnwys grwpiau gwirfoddol lleol; ac fel sylfaen ar gyfer gwasanaethau eraill."

[4] Defnyddir dull asesu amgylcheddol y sefydliad ymchwil adeiladau i asesu perfformiad amgylcheddol adeiladau newydd ac adeiladau sydd eisoes yn bod.

[5] Mae Gwerth Cymru yn rhoi cymorth caffael i awdurdodau lleol Cymru ac mae'n annog gwelliant ar draws y sector cyhoeddus.

Prif ganfyddiadau

6 Ym mhob ysgol, mae adeiladau gwell yn cyfrannu at un neu fwy o'r meysydd perfformiad a ddiffiniwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae hwn yn gyffredinol yn cytuno â chanlyniadau astudiaethau ymchwil eraill.

7 Yng ngwaith arolwg Estyn, fe wnaethom ganfod bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn dylanwadu'n fawr ar wella perfformiad yn yr ysgolion hynny sydd ag adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu.

8 Nid yw hen adeiladau ysgol sydd mewn cyflwr gwael yn gallu bodloni anghenion addysgu a dysgu modern. Mae adeiladau annigonol yn gwneud gwelliannau mewn safonau cyflawniad yn fwy heriol.

9 Bron ym mhob ysgol sydd ag adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu y gwnaethom arolwg ohonynt, mae cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion wedi gwella. Mewn rhai achosion, bu gwelliant sylweddol mewn cyrhaeddiad, yn enwedig mewn rhai ysgolion mewn cymunedau sydd â lefel uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.

10 Mae canfyddiadau adroddiadau arolygu Estyn yn dangos bod ansawdd yr addysgu wedi gwella yn yr ysgolion hynny sydd wedi symud i adeilad newydd neu adeilad sydd wedi'i adnewyddu. Caiff gwelliannau yn ansawdd adeiladau effaith fuddiol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion.

11 Mae presenoldeb disgyblion yn eu hysgol newydd yn debyg, o gymharu â'u presenoldeb yn adeilad eu hen ysgol.

12 Yn gyffredinol, mae ymddygiad disgyblion yn gwella yn eu hysgol newydd o'i gymharu â'u hymddygiad yn adeilad eu hen ysgol. Mae llai o waharddiadau parhaol a chyfnod penodol.

13 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn cynnig mwy o ddewisiadau i ddisgyblion nag yn eu hadeiladau blaenorol oherwydd bod ganddynt fwy o le a chyfleusterau gwell. Hefyd, mae'r ddarpariaeth a wna'r ysgol ar gyfer gweithgareddau cyn-ysgol ac ar ôl yr ysgol yn gwella'n sylweddol.

14 Mae Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) yn ein harolwg yn gwneud llawer i wella ansawdd adeiladau ysgol. Mae mwyafrif yr AALlau yn ein harolwg yn defnyddio grantiau ac arian cyfalaf yn ddoeth. Maent yn gwario'u harian er mwyn rheoli'r her gynyddol sy'n eu hwynebu yn sgil lleoedd dros ben[6].

15 Mae'r AALlau gorau yn ein harolwg yn datblygu eu cynlluniau rheoli asedau ysgolion[7] ochr yn ochr â'u polisïau ar gyfer gwella perfformiad disgyblion.

[6] Lle mae llai o blant mewn ardal na lleoedd mewn ysgolion. Caiff ei adnabod weithiau fel lleoedd dros ben.

[7] Y cynllunio a wna awdurdodau i reoli tir ac adeiladau y mae cynghorau yn berchen arnynt.

16 Yn yr AALlau y gwnaethom ymweld â hwy, ychydig iawn ohonynt oedd yn llunio adroddiadau am y gwahaniaeth y gall gwella adeiladau ysgol ei gael ar ansawdd addysg disgyblion. O ganlyniad, nid oes gan aelodau etholedig farn digon clir am y mater hwn.

Argymhellion

17 Er mwyn gwneud pob adeilad ysgol yn addas at eu diben, mae angen cymryd y camau canlynol:

18 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 barhau i wneud ysgolion yn addas at eu diben trwy ei grantiau i AALlau; ac

A2 annog cydweithio rhwng AALlau i hyrwyddo gwerth am arian a rheolaeth prosiect dda wrth ddarparu adeiladau ysgol newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu.

19 Dylai AALlau:

A3 nodi'r cyfraniad a wna adeiladau ysgol i godi safonau a gwella ysgolion, i hysbysu aelodaeth etholedig yn well, fel bod adeiladau ysgol yn cael lle amlwg ym mlaenoriaethau'r Cyngor;

A4 buddsoddi mewn ysgolion sydd â dyfodol tymor hir er mwyn cyflwyno addysg o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion a'r gymuned ehangach; a

A5 cheisio dysgu gan AALlau a phartneriaid eraill a gweithio gyda hwy i sicrhau gwerth am arian yn eu prosiectau adeiladu ysgol.

20 Dylai AALlau ac ysgolion:

A6 sicrhau bod cyswllt clir mewn cynlluniau AALlau ac ysgolion rhwng y strategaethau ar gyfer gwella adeiladau ysgol a chodi safonau.

Arfarniad o berfformiad mewn ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol

Cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion dros y cyfnod tair blynedd 2003-2005

21 Bron ym mhob ysgol sydd ag adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi cael eu hadnewyddu y gwnaethom arolwg ohonynt, mae cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion wedi gwella. Mewn rhai achosion, gwnaed gwelliant sylweddol, yn enwedig mewn rhai ysgolion mewn cymunedau sydd â lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Mae hyn yn cyferbynnu rhywfaint ag ymchwil a wnaed gan Pricewaterhouse Coopers ar ran yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth[8] a ganfu mai ychydig o welliant a welwyd mewn perfformiad yn sgil gwella'r adeiladau yn yr ardaloedd lleiaf cefnog a'r ardaloedd mwyaf cefnog.

22 O'n sampl, fe wnaethom allu nodi 23 ysgol gynradd y gallem wneud cymariaethau uniongyrchol yng nghyrhaeddiad disgyblion (gweler atodiad 2). Fe wnaethom gymharu'r dangosydd pwnc craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y cyfnod tair blynedd 2003-2005. Fe wnaethom ganfod bod yr ystod o welliant wedi bod rhwng -8 a 45 pwynt canran. Y gwelliant cyfartalog oedd 11.6 pwynt canran.

23 O'n sampl, fe wnaethom allu nodi 16 ysgol uwchradd yr oeddem yn gallu gwneud cymariaethau uniongyrchol ar eu cyfer (gweler atodiad 2). Fe wnaethom gymharu'r dangosydd pwnc craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 dros y cyfnod tair blynedd 2003-2005. Fe wnaethom ganfod bod yr ystod o welliant wedi bod rhwng -5 a 10 pwynt canran. Y gwelliant cyfartalog oedd 3.9 pwynt canran.

[8] Building Better Performance: an Empirical Assessment of the Learning and Other Impacts of Schools Capital Investment. Adroddiad ymchwil 407, DfES (2003)

Gwella cyrhaeddiad

Ysgol newydd yw Ysgol Gynradd A, sy'n cynnwys dwy ysgol gynradd, a agorwyd ym mis Medi 2004. Mae 195 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae gan dri deg y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%. Mae dau ddeg wyth y cant o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 20%.

Mae'r ysgol wedi gwella'n sylweddol yn ystod 2005 a 2006 ers uno'r ddwy ysgol.

Perfformiad cyn symud i'r ysgol newydd:

Hen ysgol 1		Hen ysgol 2	
Blwyddyn	**% Cyfnod Allweddol 2: DPC[9]**	**Blwyddyn**	**% Cyfnod Allweddol 2: DPC**
2003	30.8	2003	48.0
2004	33.3	2004	36.6

Perfformiad yn yr ysgol newydd:

Ysgol gynradd A	
Blwyddyn	**% Cyfnod Allweddol 2: DPC**
2005	76.3
2006	73.3

Cafodd yr ysgol adroddiad arolygu Estyn yn 2006. Nododd yr adroddiad fod:

- y safle yn darparu cyfleusterau ardderchog ar gyfer addysgu a dysgu; a
- bod yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian; ei bod yn gwella'n gyflym a'i bod mewn sefyllfa dda i wella safonau ymhellach.

24 Nid yw hi bob amser yn bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol ynglŷn â faint mae safonau cyflawniad wedi gwella mewn llawer o'r ysgolion y gwnaethom arolwg ohonynt gan nad oedd llawer o'r ysgolion yn ein harolwg wedi cael eu harolygu ers gwella'r adeiladau. Yn atodiad 3, rydym wedi cymryd detholiadau o adroddiadau o un ysgol i ddangos bod symud i adeiladau newydd yn codi safon cyflawniad disgyblion. Mae hyn yn cytuno ag ymchwil arall y cyfeirir ati yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Ymddygiad fel a nodir gan lefel y gwaharddiadau cyfnod penodol a gwaharddiadau parhaol a graddau Estyn lle bo'n briodol

25 Mae ymddygiad disgyblion yn gwella yn gyffredinol ar ôl iddynt symud i adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu a chefnogir y gwelliant hwn gan ymchwil (gweler adran ar ymchwil). Bron ym mhob ysgol newydd neu ysgolion sydd

[9] DPC – Dangosydd pwnc craidd. Mae'r dangosydd hwn yn dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel a ddisgwylir ganddynt mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg.

wedi'u hadnewyddu, yn enwedig ysgolion uwchradd, bu gostyngiad mewn gwaharddiadau cyfnod penodol a gwaharddiadau parhaol.

26 Mae medrau personol, cymdeithasol a dysgu disgyblion yn dda. Dyma'r nodweddion da:

- mae disgyblion yn llawn cymhelliant ac yn ymroi yn dda mewn gwersi;
- mae niferoedd da yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol;
- mae safonau ymddygiad mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda; ac
- mae disgyblion yn dangos parch at eu cyd-ddisgyblion, beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol neu ethnig.

27 Mae penaethiaid rhai ysgolion newydd y gwnaethom arolwg ohonynt yn honni ei bod yn cymryd amser i ddisgyblion ymgartrefu yn yr adeilad newydd a deall rheolau'r ysgol newydd. Pan oeddent yn gyfarwydd â'r rheolau hyn, roedd ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion o leiaf yn dda. Mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o hunanddisgyblaeth, yn symud yn synhwyrol o amgylch adeiladau'r ysgol ac yn ymfalchïo'n fwy yn eu hysgol newydd.

Lleihau gwaharddiadau

Mewn un ysgol uwchradd newydd, roedd problem fawr ag ymddygiad gwael a arweiniodd at nifer o waharddiadau. Cymerodd disgyblion amser i gynefino â rheolau'r ysgol newydd. Mae hyn yn awr yn cael ei ddatrys trwy sefydlu unedau ymddygiad yn yr ysgol sy'n helpu disgyblion i ddeall ymddygiad da. Ni fyddai wedi bod yn bosibl addysgu'r disgyblion hyn ar safle'r ysgol yn adeilad yr hen ysgol oherwydd nad oedd lle i sefydlu unedau ymddygiad. O ganlyniad, mae'n siŵr y byddai'r disgyblion hyn wedi cael eu gwahardd yn barhaol.

Presenoldeb

28 Mae presenoldeb disgyblion yn eu hysgol newydd yn debyg, o gymharu â'u hymddygiad yn adeilad eu hen ysgol. Mae symud i adeiladau newydd neu gael cyfleusterau gwell fel labordai gwyddoniaeth neu ganolfan chwaraeon newydd yn cael llai o effaith ar wella presenoldeb disgyblion nag unrhyw faes perfformiad arall. Mae presenoldeb disgyblion yn gyffredinol yn dychwelyd i'r hyn yr oedd yn eu hysgol newydd, pan fyddant yn arfer â'u hadeilad newydd, ac mae'n colli ei ymdeimlad o 'newydd-deb'.

Ansawdd yr addysgu

29 Mae ansawdd yr addysgu wedi gwella yn y mwyafrif o achosion yn yr ysgolion y gwnaethom arolwg ohonynt. Mae'r canfyddiad yn cytuno ag ymchwil arall a welir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Caiff gwelliannau yn ansawdd yr adeiladau effaith fuddiol iawn ar ansawdd addysgu a morâl y staff a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau a pherfformiad cyffredinol. Dangosir hyn yn glir trwy gymharu

canfyddiadau adroddiadau arolygu Estyn cyn ac ar ôl symud i adeilad newydd neu adeilad sydd wedi'i wella. Mae'r tablau isod yn dangos sut mae ansawdd yr addysgu yn cymharu mewn saith ysgol cyn ac ar ôl adnewyddu sylweddol neu symud i adeilad newydd.

Canran y graddau a ddyfarnwyd cyn symud i adeiladau sydd wedi'u gwella

Ysgol	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
A	0	49	47	4	0
B	11	46	37	6	0
C	4	67	25	4	0
D	6	53	37	8	0
E	15	55	30	0	0
F	3	23	67	7	0
G	12	37	44	7	0

Canran y graddau a ddyfarnwyd ar ôl symud i adeiladau wedi'u gwella

Ysgol	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
A	17	52	24	7	0
B	38	50	10	2	0
C	27	54	17	2	0
D	14	81	5	0	0
E	47	43	10	0	0
F	9	45	43	3	0
G	15	65	18	2	0

30 Nodweddion addysgu da yn yr ysgolion hyn oedd:

- bod gan athrawon wybodaeth bwnc dda a'u bod yn rhannu eu brwdfrydedd am eu pynciau gyda disgyblion;
- bod athrawon yn holi disgyblion yn effeithiol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth;
- bod perthynas dda iawn rhwng athrawon a disgyblion;
- bod gwersi yn symud yn gyflym, gan sicrhau lefelau uchel o ddysgu;
- bod cynllunio gwersi effeithiol i sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu gwahanol yn yr un dosbarth yn cael eu herio digon ar y lefel briodol;
- bod gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni; a
- bod athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu i gynnal diddordeb disgyblion.

Arfarnu'r effaith ar staff a gaiff symud o adeilad gwael a hen i adeilad newydd a adeiladwyd yn bwrpasol.

Mewn un ysgol uwchradd, arfarnodd y pennaeth yr effaith ar ei staff a gafodd symud o adeilad gwael a hen i adeilad newydd a adeiladwyd yn bwrpasol.

Nodwyd y ffactorau canlynol:

- mae ystafelloedd dosbarth pwnc wedi'u trefnu gyda'i gilydd wedi arwain at ddull tîm agosach mewn, ac ar draws, pynciau tebyg;
- adnoddau gwell a defnydd gwell gan bob un o'r staff yn enwedig mewn pynciau ymarferol fel dylunio a thechnoleg, drama, addysg gorfforol, celf a cherddoriaeth;
- darpariaeth a defnydd gwell o adnoddau technoleg gwybodaeth i gefnogi gwersi;
- penaethiaid adran yn gallu monitro safon yr addysgu a'r dysgu yn agosach ym mhob grŵp addysgu; ac
- ystafell athrawon fawr sy'n helpu staff i gyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd.

Mae effaith y ffactorau hyn yn cynnwys:

- ansawdd gwell yr addysgu (rhoddwyd gradd 2 i 80% o'r gwersi, nodweddion da a dim diffygion pwysig neu well ar draws yr ysgol a 100% o radd 2 neu'n well yn y chweched dosbarth, o'i gymharu â 65% yn radd 2 yn yr arolygiad blaenorol);
- canlyniadau gwell mewn dangosyddion perfformiad allweddol[10] mewn TGAU a Safon Uwch;
- staff addysgu yn awyddus i ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol (mae gan bron un o bob pump o'r staff y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid[11]);
- cwricwlwm ehangach sy'n cynnwys darpariaeth allgyrsiol a gynigir i ddisgyblion ar draws pob cyfnod allweddol;
- athrawon yn rhannu syniadau ac arfer orau yn anffurfiol ac yn ffurfiol; a
- morâl staff llawer gwell.

[10] Mae'r rhain yn cynnwys canran y disgyblion yn ennill pum gradd A* - C ac A* neu fwy mewn TGAU a chanran y myfyrwyr sy'n ennill o leiaf ddwy radd Safon Uwch A i C ac o leiaf ddwy radd Safon Uwch A i E.

[11] Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid. Mae hwn yn gymhwyster ar gyfer athrawon ac uwch staff sydd am fod yn benaethiaid.

Ansawdd ac ystod y cwricwlwm

31 Mae ein harolwg yn cytuno ag ymchwil arall bod cyswllt cryfach â pherfformiad lle gwnaed gwelliannau i feysydd cwricwlwm penodol. Yn ein harolwg, fe wnaethom ganfod bod gwella cyfleusterau yn cyfrannu at addysgu gwell ac o ganlyniad cyfleoedd dysgu gwell ar gyfer disgyblion a myfyrwyr. Mae hyn yn arbennig o wir mewn pynciau sy'n cynnwys elfennau ymarferol, er enghraifft, gwyddoniaeth, drama, dylunio a thechnoleg, addysg gorfforol, cerddoriaeth a TGCh.

32 Mae ansawdd ac ystod y cwricwlwm wedi gwella mewn adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu ac yn enwedig mewn ysgolion newydd y gwnaethom arolwg ohonynt. Mae'r mwyafrif o ysgolion sydd ag adeiladau newydd neu adeiladau a adnewyddwyd yn cynnig:

- mwy o ddewisiadau pwnc;
- adnoddau gwell sy'n golygu bod disgyblion yn cael profiadau dysgu da neu ragorol yn eu gwersi;
- darpariaeth sydd wedi gwella'n sylweddol ar gyfer disgyblion cyn-ysgol ac ar gyfer disgyblion a'r gymuned ar ôl yr ysgol; a
- mwy o bartneriaethau a phartneriaethau gwell gydag ysgolion ac asiantaethau eraill sydd o fantais i ddisgyblion.

Gweithio gyda'r gymuned leol

Mae pennaeth ysgol newydd, a agorwyd ym mis Medi 2005, sy'n cynnwys ysgol iau a dwy ysgol fabanod, sy'n gwasanaethu ystâd sydd dan anfantais gymdeithasol, yn treulio llawer o amser yn gweithio gyda'r gymuned leol. Ffocws y gwaith yw cael y gymuned i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol ac annog rhieni i ddeall sut gallant gefnogi gwaith ysgol eu plant. Mae ei gwaith yn sicr yn cael ei helpu gan ansawdd da'r adeilad newydd a'r ffaith fod cyfleusterau cymunedol fel:

- rhaglen Cychwyn Cadarn wedi'i chynllunio i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant cyn-ysgol;
- meithrinfa ar gyfer plant ifanc iawn i alluogi rhieni i fynychu sesiynau ar gefnogi gwaith ysgol eu plant;
- clybiau brecwast a chlybiau ar ôl yr ysgol; a
- swyddfa ar gyfer ymwelwyr iechyd.

Er ei bod yn rhy gynnar i asesu'r effaith tymor hir, mae cyfranogiad cynyddol a gwell y gymuned wedi cyfrannu at wella safonau. Yn 2006, enillodd 92% o'r disgyblion lefel 4 neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sy'n berfformiad da i ysgol lle mae 34% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

33 Yn ein harolwg, mae arweinyddiaeth yn dda ac weithiau'n rhagorol mewn llawer o'r ysgolion newydd neu'r ysgolion sydd wedi'u hadnewyddu. Dyma'r dylanwad allweddol ar wella perfformiad. Mewn llawer o achosion, penodir penaethiaid profiadol a llwyddiannus i arwain ysgolion sydd newydd gael eu creu. Mewn adeiladau newydd, mae uwch reolwyr yn treulio llai o amser yn ymdrin â phroblemau sy'n cymryd llawer o amser, fel toeau yn gollwng, ystafelloedd dosbarth gorlawn a defnyddio ystafelloedd dosbarth fel neuaddau bwyta. Mae dadansoddiad o arweinyddiaeth a rheolaeth yng nghanfyddiadau adroddiadau arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd Estyn yn dangos bod y nodweddion da a rhagorol yn yr ysgolion hyn yn cynnwys:

- arweinwyr â diben clir, sy'n llawn dychymyg ac yn meddu ar synnwyr cryf o gyfeiriad;
- y cysylltiadau agos rhwng uwch reolwyr a thimau adrannol sy'n gwneud yn siwr bod cyfathrebu da, ymgynghori a monitro perfformiad staff a disgyblion yn cael eu cynnal;
- ystod eang o wybodaeth am gyflawniad blaenorol disgyblion sy'n cael ei defnyddio i osod targedau ystyrlon ar gyfer dosbarthiadau, adrannau a disgyblion;
- mae prosesau da ar gyfer rheoli perfformiad yn helpu ysgolion i ganolbwyntio'n gliriach ar y modd y mae ansawdd y dysgu a'r addysgu yn effeithio ar y canlyniadau cyffredinol a gyflawnir;
- targedau a ddefnyddir i fonitro cyflawniad ac annog gwella; a
- rheolwyr a staff sy'n defnyddio'u hadnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol.

Gwaith AALlau wrth wella adeiladau ysgol

34 Mae AALlau yn gwneud llawer i wella ansawdd adeiladau ysgol. Mae'r rhan fwyaf o AALlau yng Nghymru yn defnyddio Grantiau Gwella Adeiladau Ysgol ac arian cyfalaf yn effeithiol i:

- adeiladu ysgolion newydd yn lle adeiladau sydd mewn cyflwr gwael;
- uno ysgolion yn enwedig ysgolion iau a babanod; ac
- adnewyddu safleoedd ysgolion yn sylweddol.

35 Mae AALlau yn defnyddio tri dangosydd wrth farnu gwerth am arian wrth gwblhau adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu. Y dangosyddion hyn yw bod adeiladau o ansawdd da, o fewn cyllideb ac ar amser. Cynhelir proses fonitro ac archwilio gofalus o'r modd y caiff contractau eu dyfarnu a'u cwblhau ar gyfer adeiladau newydd neu ar gyfer gwella adeiladau. Mae'r rhan fwyaf o AALlau yn aelodau o glybiau meincnodi ac mae llawer o wybodaeth gymharol ar gael y maent yn ei defnyddio'n effeithiol i lunio barnau gwerth am arian.

Gweithio mewn partneriaeth

Yn 2001, rhoddodd un Cyngor flaenoriaeth i wella ansawdd adeiladau yn y sector cynradd yn ei Gynllun Corfforaethol. Mae cyllid o'r rhaglen gyfalaf wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2008-2009 i helpu i gyflawni'r flaenoriaeth.

Nodwedd dda iawn ar waith yr AALl hwn yw'r trefniant partneriaeth tymor hir y mae wedi'i ffurfio â chwmni preifat i gyflwyno'r prosiectau cyfalaf. Mae hyn yn ddull gwahanol i'r contractau adeiladu ysgol 'annibynnol' traddodiadol. Un o fanteision trefniant partneriaeth yw ei fod yn galluogi'r contractwr i:

- gymryd rhan o ddechrau pob prosiect newydd cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau;
- rhoi cyngor ac arbenigedd i fynd â phrosiectau o gyfnod y cysyniad a'r cynllunio i'r cyfnod adeiladu a chwblhau;
- cael mwy o sicrwydd ar bris pob gwaith; a
- chael mwy o hyblygrwydd i newid adnoddau rhwng contractau fel sydd angen.

Y fantais i'r AALl yw bod y trefniant partneriaeth yn cyflwyno:

- adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu o ansawdd da, o fewn cyllideb ac ar amser; a
- llai o amser a chostau gweinyddu wrth sefydlu prosiectau adeiladu newydd.

36 Mae gan bob AALl amcanion clir yn eu cynlluniau strategol allweddol i godi safonau a gwella cyflwr ac addasrwydd adeiladau. Mae gan AALlau lawer o wybodaeth am berfformiad hefyd, er mai ychydig iawn o AALlau yn unig sy'n arfarnu effaith gwella adeiladau ysgol ar ddata perfformiad yn ffurfiol. Yn yr enghraifft orau, caiff gwybodaeth o'r arfarniadau ei bwydo i'r gwasanaeth addysg neu gynlluniau rheoli asedau'r cyngor. Yna, defnyddir hyn i lywio'r cynllunio ar gyfer adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau presennol.

37 Nid yw aelodau etholedig yn gwybod digon am y gwahaniaeth y gall gwella adeiladau ysgol ei gael ar ansawdd addysg a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Yn y rhan fwyaf o AALlau, nid oes adroddiadau i aelodau ar effaith adeiladau newydd ar berfformiad ysgolion ac nid yw aelodau'n mynd ati i chwilio amdanynt. Mae angen i aelodau gael gwybodaeth dda er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau anodd am y ffordd orau o reoli lleoedd dros ben.

Arfarnu effaith adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi cael eu gwella

Mewn un AALl, mae rhaglen ad-drefnu ysgolion wedi lleihau nifer yr ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu plant rhwng tair ac 11 oed tua 30%. Ym 1996, roedd cyfanswm o 43 o ysgolion cynradd, ond roedd hyn wedi lleihau i 29 o ysgolion cynradd erbyn mis Medi 2006.

Cynhaliodd yr AALl astudiaeth ar effaith y buddsoddiad hwn mewn adeiladau ysgol ar godi safonau cyflawniad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion a datblygiad cyffredinol cymunedau cefnogol mewn ysgolion. Mae Estyn wedi darllen yr astudiaeth hon ac yn cytuno â'r canfyddiadau. Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn dangos bod y buddsoddi wedi cyfrannu'n dda at wella safonau. Yn benodol:

- mae canran y disgyblion sy'n ennill 5 gradd TGAU A*-C neu fwy yn yr AALl wedi codi o 35.5% yn 2002 i 48.7% yn 2006. Mae hyn yn welliant sylweddol ac yn dangos bod ffocws clir yr AALl ar godi safonau yn llwyddo;

- cafodd dwy ysgol gynradd newydd adroddiadau arolygu gwell na'r ysgolion blaenorol. Mewn un ysgol, bu cynnydd sylweddol mewn DPC (30% i 75%) ac mae'r ysgol arall wedi aros ar lefel gymharol uchel (tua 75%);

- o'r tair ysgol gynradd sydd wedi'u hadnewyddu, mae un ysgol wedi gweld cynnydd sydyn yn y DPC (54.5% i 85.7%), mae ysgol arall wedi gweld cynnydd cyson (41% i 54%), tra bo'r ysgol arall, sy'n ysgol llawer llai, wedi parhau yn uchel;

- mae un ysgol uwchradd sydd wedi cael ei hadnewyddu yn sylweddol wedi gwella perfformiad A* - C (44.4 % i 50%) ac wedi cael adroddiad arolygu da iawn;

- mae un ysgol uwchradd arall y gwnaed gwelliannau i'r adeilad yn yr adran Saesneg wedi gweld cynnydd cyson mewn perfformiad yn y pwnc hwnnw; ac

- yn y ddwy ysgol uwchradd, mae presenoldeb a gwaharddiadau cyfnod penodol a gwaharddiadau parhaol wedi gwella.

Canfyddiadau ymchwil

Ymchwil[12]

38 Gwnaed llawer o astudiaethau yn UDA ar yr effaith a gaiff adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u gwella ar berfformiad dysgwyr. Yn y DU, mae llawer llai o astudiaethau ac mae'r rheiny sydd wedi cael eu cynnal yn tueddu i ddod i'r un casgliadau â'r astudiaethau Americanaidd. Mae'r astudiaethau Americanaidd yn dangos bod cyflawniad dysgwyr yn gwella gyda chyflwr adeiladau gwell. Maent hefyd yn dangos bod ffactorau unigol fel lefelau goleuo, ansawdd yr aer a thymheredd, ac acwsteg yn effeithio ar ymddygiad a chanlyniadau dysgwyr, er bod y dystiolaeth feintiol sydd ar gael ar rai o'r ffactorau hyn yn gyfyngedig.

39 Cynhaliwyd y prif ddarn ymchwil yn y DU yn 2003 gan Pricewaterhouse Coopers ar ran yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth[13]. Dadansoddodd yr astudiaeth hon effaith buddsoddiadau cyfalaf ar berfformiad trwy ddulliau meintiol ac ansoddol.

40 Ar gyfer y dadansoddiad meintiol, ystyriodd yr ymchwil ystod eang o wybodaeth am gyrhaeddiad yng nghyfnodau allweddol[14] 1, 2 a 3, TGAU a Safon Uwch. Edrychodd yr ymchwilwyr ar fuddsoddiad cyfalaf o dan dri chategori addasrwydd, digonolrwydd a chyflwr. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar dri AALl a oedd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli trawstoriad rhesymol o'r mathau o awdurdodau yn Lloegr. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 900 o ysgolion, gan gynnwys 700 o ysgolion cynradd a 125 o ysgolion uwchradd. Edrychodd yr astudiaeth ar fuddsoddiadau o 1990 i 1995 ac ar y lefelau a'r newidiadau mewn perfformiad o 1996 i 2000.

41 Cymharodd yr ymchwilwyr berfformiad yr ysgolion hynny a oedd wedi cael rhai gwelliannau i'w hadeiladau neu a oedd wedi symud i mewn i adeiladau newydd â'r ysgolion hynny nad oeddent wedi cael eu gwella neu wedi symud. Fe wnaeth yr ymchwilwyr hefyd gyflwyno nifer o ffactorau cyd-destunol fel cefndir economaidd gymdeithasol y gymuned yr oedd yr ysgol yn ei gwasanaethu, ac ansawdd yr addysgu a'r rheoli. Dyma oedd canfyddiadau allweddol y dadansoddiad meintiol:

- mae cyswllt cadarnhaol ac ystadegol arwyddocaol rhwng buddsoddiad cyfalaf a pherfformiad disgyblion;

- o ran y gwahanol fathau o fuddsoddiad cyfalaf, mae cyswllt cryfach â pherfformiad lle bu gwelliannau i feysydd cwricwlwm penodol, er enghraifft, darparu labordai gwyddoniaeth ac ystafelloedd TGCh newydd neu well. Caiff y rhain effaith uniongyrchol ar addysgu a dysgu; ac

[12] Mae'r holl bapurau ymchwil wedi'u rhestru yn Atodiad 1.
[13] Building Better Performance: an Empirical Assessment of the Learning and Other Impacts of Schools Capital Investment. Adroddiad ymchwil 407, DfES (2003)
[14] Mae ysgolion yn rhannu'r cyfnod oed ysgol gorfodol yn bedwar cyfnod allweddol. Cyfnod allweddol 1 ar gyfer disgyblion rhwng pump a saith oed; cyfnod allweddol 2 ar gyfer disgyblion rhwng saith ac 11 oed; cyfnod allweddol 3 ar gyfer disgyblion rhwng 11 a 14 oed; a chyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion rhwng 14 ac 16 oed.

- mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth arwyddocaol yn ymwneud ag ysgolion cynradd. Mae'r ymchwilwyr yn dod i'r casgliad bod hyn fwy na thebyg oherwydd y nifer fwy o ysgolion cynradd yr edrychwyd arnynt yn hytrach na'r ffaith fod cyswllt gwannach mewn ysgolion uwchradd.

42 Ar gyfer rhan ansoddol yr astudiaeth, cynhaliodd yr ymchwilwyr gyfweliadau yn y tri awdurdod lleol. Cafodd 32 o bobl eu cyfweld, gan gynnwys penaethiaid, athrawon, staff cymorth, swyddogion awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned leol. Y canfyddiadau allweddol o'r agwedd hon ar yr astudiaeth oedd bod:

- gwelliannau i'r adeilad yn gwella perfformiad dysgwyr trwy gymhelliant cynyddol dysgwyr ac athrawon ac ymddygiad gwell dysgwyr;

- mewn rhai achosion, gwelwyd bod buddsoddiad cymharol fach yn cael effaith sylweddol;

- gwella adeiladau ynddo'i hun ddim yn cael cymaint o ddylanwad ar berfformiad dysgwyr â ffactorau eraill, fel ansawdd yr addysgu;

- gwelliannau i'r adeiladau yn ysgogi ychydig iawn o welliant mewn perfformiad yn yr ardaloedd lleiaf cefnog a mwyaf cefnog. Yn yr ardaloedd lleiaf cefnog, roedd y bobl a gafodd eu cyfweld yn gweld bod ffactorau eraill fel amddifadedd cymdeithasol ac economaidd a chymorth cyfyngedig rhieni yn fwy arwyddocaol. Yn yr ardal fwyaf cefnog, roedd y bobl a gafodd eu cyfweld yn teimlo y byddai dysgwyr yn llwyddo waeth beth oedd ansawdd yr adeiladau; ac

- roedd adeiladau wedi'u gwella yn tueddu i gael effeithiau buddiol ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd mawr yn gymdeithasol ac yn economaidd.

43 Yn 2005, lluniodd Prifysgol Newcastle adroddiad ar effaith adeiladau ysgol newydd yng Nghymru ar gyfer y Cyngor Dylunio[15]. Mae'r adroddiad yn datgan bod tystiolaeth gref bod amgylchedd gwael o ran ansawdd yr aer, sŵn a thymheredd yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr ac athrawon. Fodd bynnag, pan fydd yr amgylchedd yn bodloni safonau gofynnol, mae'r effaith yn llai arwyddocaol. Roedd rhywfaint o ymchwil a adolygwyd yn yr adroddiad yn canfod ychydig iawn o dystiolaeth, os o gwbl, bod gwelliannau y tu hwnt i'r safon ofynnol hon yn gwella cyrhaeddiad, tra bo ymchwilwyr eraill yn gweld bod gwelliannau ehangach yn ffordd o wella agweddau a chyrhaeddiad posibl.

44 Cynhaliwyd darn o ymchwil ar raddfa fach ar effaith adeiladau ysgol newydd yng Nghymru ar gyflawniad disgyblion gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Edrychodd yr ymchwil ar ysgolion cynradd newydd a oedd wedi cael eu hadeiladu yng Nghymru er 1996. Dangosodd fod yr ysgolion cynradd yn gwella'u canlyniadau o ryw 10 pwynt canran yn y flwyddyn gyntaf ar ôl agor yr adeilad newydd, a bod hyn yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 3%. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn ymwneud ag adeiladau newydd yn unig ac nid yw'n cysylltu perfformiad â ffactorau economaidd gymdeithasol, cyfran y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am

[15] The Impact of School Environments: A Literature Review. Y Cyngor Dylunio (2005)

ddim neu eu cyrhaeddiad yn y blynyddoedd blaenorol. Yn ychwanegol, ac eithrio ar gyfer dwy ysgol, nid yw'n edrych ar effaith adeiladau ysgol newydd dros raddfa amser hirach na blwyddyn. Mae'r astudiaeth yn cynnwys awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut dylai awdurdodau lleol reoli'r broses o symud i ysgol newydd gan ei bod yn ymddangos bod perfformiad yn dirywio yn y flwyddyn y mae ysgol yn agor.

Atodiad 1

Llyfryddiaeth

Research Brief 407 and Research Report 407- Building Better Performance: an Empirical Assessment of the Learning and other Impacts of Schools Capital Investments (DfES 2003)

The Impact of School Environments: A Literature Review (Y Cyngor Dylunio 2005)

School Issues Digest: Building Better Outcomes - the Impact of School Infrastructure on Student Outcomes and Behaviour (DETYA)

Canfyddiadau cychwynnol mewn papur gan Joyce Crandon, AALl Merthyr.

Bowers, J.H. & Burkett, G.W. (1987). Relationship of student achievement and characteristics in two selected school facility environmental settings. Edmonton, Alberta, Canada: 64th Annual International conference on the Council of Educational Facility Planners. (ERIC document Reproduction Service No. ED286278)

Chan, T. C. (1979). The impact of school building age on the achievement of eighth grade pupils from the public schools in the state of Georgia. Unpublished doctoral dissertation, Prifysgol Georgia, Athen.

Frazier, L.M. (1993). Deteriorating school facilities and student learning. Washington D.C.: Office of Educational Research and Improvement.

Holt, C.R. (1994). Critical factors that affect the passage of school bond elections. School Business Affairs, 60(8), 33-37.

Ikpa, V.W. (1992). The Norfolk decision: The effects of converting from a unitary educational system to a dual educational system upon academic achievement. Norfolk City Schools, Virginia. (ERIC Document Reproduction Services No. ED346583)

McGuffey, C.W. And Brown, C.L. (1978) The impact of school building age on school achievement in Georgia. CEFPI Journal, 16, 6-9.

McGuffey, C.W. (1982). Facilities. In H.J. Walberg, Improving educational standards and productivity (pp. 237-281). Berkley, California: Prifysgol Illinois.

Plumley, J.P. Jr. (1978). The impact of school building age on the academic achievement of pupils from selected schools in the state of Georgia. Unpublished doctoral dissertation, Prifysgol Georgia, Athen.

Thomas, J.A. (1962) Efficiency in education: A study of the relationship between selected inputs and mean test scores in a sample of senior high school. Traethawd hir na chyhoeddwyd, Prifysgol Stanford.achievement. *Norfolk City Schools, Virginia. (ERIC Document Reproduction Services No. ED346583)*

Atodiad 2

Cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

Ysgolion cynradd

Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2

Ysgol	2003	2005	Amrywiad +/-
1	53	59	+6
2	71	79	+8
3	33	45	+12
4	51	52	+1
5	64	61	-3
6	70	64	-6
7	54	63	+9
8	44	56	+12
9	70	66	-4
10	49	72	+23
11	49	76	+27
12	69	66	-3
13	54	85	+31
14	41	53	+12
15	31	76	+45
16	54	67	+13
17	49	72	+23
18	54	76	+22
19	55	56	+1
20	75	63	-8
21	56	80	+24
22	66	83	+17
23	94	100	+6
Amrywiad cyfartalog			+11.6

Ysgolion uwchradd

Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnciau craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 4

Ysgol	2003	2005	Amrywiad +/-
1	43	45	+2
2	43	53	+8
3	23	28	+5
4	43	53	+10
5	46	48	+2
6	37	41	+4
7	44	37	+3
8	28	35	+7
9	38	44	+6
10	36	37	+1
11	53	48	-5
12	59	55	-4
13	32	35	+3
14	26	42	+6
15	39	46	+7
16	56	63	+7
Amrywiad cyfartalog			+3.9

Atodiad 3

Cyflawniad mewn ysgol gynradd

Cyflawniad disgyblion

Ysgol 1

Canran y graddau a ddyfarnwyd cyn ac ar ôl symud i adeiladau gwell

Arolygiad	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
1998	0	50	45	5	0
2004	41	55	4	0	0

Graddau a ddyfarnwyd ar gyfer pob pwnc cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau gwell

	Arolygiad 1998		Arolygiad 2004	
Pwnc	**CA1**	**CA2**	**CA1**	**CA2**
Cymraeg	Da	Da	Da iawn	Da iawn
Saesneg	N/A	Boddhaol	N/A	Da
Mathemateg	Da	Da	Da iawn	Da iawn
Gwyddoniaeth	Da	Da	Da iawn	Da iawn
Hanes	Da	Da	Da iawn	Da iawn
Addysg grefyddol	Da	Boddhaol	Da	Da
Daearyddiaeth	Da	Boddhaol	Da iawn	Da
Technoleg gwybodaeth	Da iawn	Da iawn	Da iawn	Da iawn
Celf	Da iawn	Da iawn	Da iawn	Da iawn
Cerddoriaeth	Da	Da	Da iawn	Da iawn
Addysg gorfforol	Da	Da	Da	Da
Dylunio a thechnoleg	Da	Da	Da iawn	Da iawn